| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Mai 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Teitl:** | **Diweddaru'r Cyfansoddiad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cynnig newidiadau sy'n angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn ei gadw'n gyfredol ac yn berthnasol

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cyngor Llawn y dylid diweddau'r Cyfansoddiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y newidiadau fel y'u cinigir gan y Swyddog Monitro yn cael eu mabwysiadu a bod yn Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i newid y Cyfansoddiad o ganlyniad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae rhai newidiadau gweithredol a wnaed gan Swyddogion yn golygu fod angen diweddaru cynllun dirprwyo'r Cyfansoddiad. Mae gwasanaeth caffael y Cyngor wedi ei drosglwyddo o Gyllid, Asedau a Thai at y Gwasanaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd.

Yn ogystal â hynny, er mwyn gwella cyfathrebu rhwng gwasanaethau a gweithio'n fwy effeithiol, mae dau swyddog o'r gwasanaethau cyfreithiol (un priffyrdd ac un cyfreithiwr eiddo) wedi eu hadleoli i swyddfa Caledfryn. Mae angen i Lofnodwr Awdurdodedig selio rhai dogfennau penodol, fel gorchmynion rheoleiddio traffig, er mwyn iddynt ddod yn ddogfennau cyfreithiol; ac mae'n gwneud synnwyr y gall hyn ddigwydd yno os oes angen, yn hytrach na throsglwyddo'r ddogfen i Neuadd y Sir. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i'r meysydd a nodir isod. Bydd gweddill y gwaith selio yn dal i gael ei drin gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae angen gweithredol (yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur fel etholiadau) i gynyddu'r nifer o lofnodwyr awdurdodedig gan gadw'r awdurdod ar lefel ddigon uchel.

Mae'r newidiadau arfaethedig fel a ganlyn*:*

4.1 Bod Pennaeth Priffyrdd; Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac unrhyw unigolion o fewn eu gwasanaeth a awdurdodwyd yn ysgrifenedig ganddynt; ag awdurdod i selio a llofnodi dogfennau fel Llofnodwyr Awdurdodedig o ran unrhyw Gytundebau Ffordd Adran 38, Cytundebau Adran 278; Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro a Pharhaol, Gorchmynion Gwyro Llwybrau Troed a Chytundebau Creu, Gorchmynion Meysydd Parcio.

4.2 Bod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn gweithredu yn ddyddiol fel y swyddog sy'n gyfrifol am gyflawni gwasanaeth caffael strategol a gweithredol y cyngor.

4.3 Bod y Swyddog A.151 a'r Dirprwy Swyddog A.151 yn absenoldeb y Swyddog Monitro neu unrhyw lofnodwr awdurdodedig arall o fewn Gwasanaethau Cyfreithiol, yn cael eu hawdurdodi i selio a llofnodi ar ran y Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Gyngor modern sy'n ceisio lleihau prosesau a gweithio'n fwy effeithiol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes goblygiadau gwasanaeth na chost yn deillio o'r penderfyniad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y website, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid oes goblygiadau lles.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Nid oes angen ymgynghori; mae unrhyw adleoliadau adrannol neu drosglwyddo swyddogaethau eisoes wedi eu gwneud gan Uwch Swyddogion mewn ymgynghoriad â staff, sy'n golygu fod angen diweddau'r Cyfansoddiad bellach er mwyn gorffen y gwaith hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi eu nodi wrth wneud y penderfyniad hwn; fodd bynnag byddai risgiau i ddilysrwydd gwneud penderfyniadau os na chaiff y Cyfansoddiad ei ddiweddaru i adlewyrchu penderfyniadau sydd wedi eu gwneud.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gael Cyfansoddiad mabwysiedig.